Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 21 Mehefin 2016

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 29 MEHEFIN 2016** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHIN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**CAIS ER YSTYRIAETH -**

**3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AM DRWYDDED SAFLE NEWYDD – THE POTS, 22 STRYD FAWR, Y RHYL** (Tudalennau 7 - 28)

Ystyried cais am Drwydded Eiddo newydd, a gyflwynwyd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Trwyddedu 2003 o ran The Pots, Stryd Fawr, Y Rhyl (mae amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiedig ynghlwm).

Nodwch y drefn i'w chymryd gan yr Is-Bwyllgor (sydd ynghlwm wrth y rhaglen hon).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Irving
Cefyn Williams

Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

## Y DREFN AR GYFER CEISIADAU A WNEIR DAN Y DDEDDF TRWYDDEDU 2003

| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. | Mae Cadeirydd yr Is-Bwyllgor Trwyddedu yn agor y Gwrandawiad ac yn croesawu pawb sy'n bresennol. Mae'n cyflwyno'r Cydweithwyr ar yr Is-Bwyllgor a'r Swyddogion sy'n Bresennol. |
| 2. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno'r Cais. |
| 3. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i gyflwyno'r Cais. |
| 4. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd unrhyw Awdurdodau Cyfrifol (e.e. Heddlu, Gwasanaeth Tân) i gyflwyno eu sylwadau. |
| 5. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd neu'r Awdurdodau Cyfrifol. |
| 6. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Rhai â Diddordeb i gyflwyno eu sylwadau. |
| 7. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Rhai â Diddordeb ac i egluro unrhyw bwyntiau gyda'r Ymgeisydd. |
| 8. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i wneud datganiad terfynol. |
| 9. | Bydd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn ymneilltuo i ystyried eu penderfyniad, gyda'r Clerc i'r Gwrandawiad a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol i'w canlyn. |
| 10. | Mae Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd gyda'u penderfyniad ar y Cais, gyda rhesymau i'w gefnogi. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# LICENSING SUB COMMITTEE

# PROCEDURE FOR APPLICATIONS MADE UNDER THE LICENSING ACT 2003

| Step | Description |
| --- | --- |
| 1. | Chair of the Licensing Sub Committee, opens the Hearing and welcomes everyone present. Introduces Colleagues on Sub Committee and Officers Present. |
| 2. | Chair invites Licensing Officer to introduce the Application<br>. |
| 3. | Chair invites the Applicant (or the Appointed Representative) to present the Application. |
| 4. | Chair invites any Responsible Authorities (E.g. Police, Fire Service) to present their representations. |
| 5. | Chair invites Members of the Licensing Sub Committee to ask questions of the Applicant or the Responsible Authorities. |
| 6. | Chair invites Interested Parties to present their representations. |
| 7. | Chair invites Members of the Licensing Sub Committee to ask questions of the Interested Parties and to clarify any points with the Applicant. |
| 8. | Chair invites the Applicant (or Appointed Representative) to make a final statement. |
| 9. | Licensing Sub Committee Members will adjourn to consider their decision, accompanied by the Clerk to the Hearing and the Legal Advisor. |
| 10. | Licensing Sub Committee members return with their decision on the Application, supported by reasons. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 29 Mehefin 2016 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706451 licensing@denbighshire.gov.uk |
| **TESTUN:** | **Deddf Trwyddedu 2003 Cais am Drwydded Eiddo Newydd: The Pots, 22 Stryd Fawr, Y RHYL LL18 1ES** |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael cais am Drwydded Eiddo newydd, a gyflwynwyd yn unol ag Adran 17 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 mewn perthynas â The Pots, 22 Stryd Fawr, y Rhyl. O ganlyniad i'r ymgynghori angenrheidiol a'r Rhybudd Cyhoeddus gofynnol, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael sylwadau perthnasol sy'n gwrthwynebu'r cais. Mae angen i'r Is-bwyllgor wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais, gan ystyried yr holl ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae hwn yn gais am Drwydded Eiddo newydd. Mae'r sylwadau a gafwyd yn ymwneud ag Atal Trosedd ac Anrhefn, a Diogelu Plant rhag Niwed a Diogelwch y Cyhoedd.

2.2 Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a (ii) Chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

2.3 Gan weithredu yn rhinwedd Awdurdod Trwyddedu, rhaid i Aelodau geisio hybu'r Amcanion Trwyddedu, ac os yw Aelodau'n ystyried bod materion yn gysylltiedig ag un neu fwy o amcanion, gallant arfer eu disgresiwn.

2.4 Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu na allant arfer eu disgresiwn mewn unrhyw achos, am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol, a dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os

penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd o’r Protocol, y Polisi neu’r Canllawiau.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 **Penderfyniad yr Is-Bwyllgor**

Mae’n rhaid i’r Is-Bwyllgor, o ystyried y sylwadau a wneir, gymryd camau o’r fath (isod) maent yn eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo’r amcanion trwyddedu:

Gall yr Is-bwyllgor:

- Cymeradwyo'r cais a wnaethpwyd
- Cyflwyno unrhyw amodau, i’r graddau y mae’r Awdurdod yn eu hystyried yn angenrheidiol i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu
- Gwrthod y Cais

## 4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Ar 9 Mai 2016, cafodd yr Awdurdod Trwyddedu gais am Drwydded Eiddo newydd. Cyflwynwyd y cais gan Yvette Giblin mewn perthynas â The Pots, 22 Stryd Fawr, y Rhyl.

4.2 Mae’r ymgeisydd wedi gofyn am ganiatâd i ddarparu’r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

| **GWEITHGAREDD TRWYDDEDADWY** | **DIWRNODAU PERTHNASOL** | **AMSER O** | **Amser I** |
|---|---|---|---|
| Darparu cerddoriaeth fyw (dan do yn unig) | Dydd Iau<br>Dydd Gwener a dydd Sadwrn | 19:00<br>19:00 | 23:00<br>02:00 |
| Darparu Cerddoriaeth wedi’i Recordio (Dan do yn unig) | Dydd Llun – Dydd Iau<br>Dydd Gwener a dydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 11:00<br>11:00<br>11:00 | 23:00<br>02:00<br>00:00 |
| Darparu Alcohol | Dydd Llun – dydd Mercher<br>Dydd Iau<br>Dydd Gwener a dydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 11:00<br>11:00<br>11:00<br>11:00 | 23:00<br>00:00<br>02:00<br>00:00 |

4.3 Darparu cerddoriaeth fyw – Mae'r ymgeisydd wedi nodi y chwaraeir gerddoriaeth fyw wedi'i fwyhau tan 02:00 ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn unwaith neu ddwywaith y mis yn unig; gall berfformiadau acwstig ddigwydd ar ôl 23:00.

4.4 Darperir cerddoriaeth fyw ar Nos Calan tan 02:00.

4.5 Darparu Cerddoriaeth wedi'i recordio – Mae'r ymgeisydd wedi nodi y bydd hyn yn cynnwys cyfuniad o gerddoriaeth gefndirol a DJ.

4.6 Deddf Trwyddedu 2003 – gwybodaeth/gofynion

Pan fydd cais yn cael ei gyflwyno am drwydded eiddo, mae'n rhaid rhoi copi llawn i bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol, sef:

- Yr Heddlu
- Gwasanaeth Tân
- Cynllunio
- Safonau Masnach
- Iechyd yr Amgylchedd
- Iechyd a Diogelwch
- Gwasanaethau Plant
- Awdurdod Iechyd
- Awdurdod Trwyddedu

4.7 Hysbysiad Cyhoeddus

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gynnwys hysbysiad mewn papur newydd lleol a rhoi hysbysiad ar yr adeilad neu wrth ei ymyl. Bydd hyn yn galluogi unigolion, corff neu fusnes i gyflwyno sylwadau perthnasol. Ond, bydd yn rhaid iddynt ddangos bod eu sylwadau yn ymwneud â hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

4.8 Sylwadau Perthnasol

Derbyniwyd sylwadau sydd, ym marn Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, yn berthnasol mewn perthynas â'r cais o fewn y cyfnod statudol o 28 diwrnod.

4.8.1 Derbyniwyd sylwadau ysgrifenedig gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sydd yn ystyried nad yw'r darpariaethau diogelwch tân cyfredol yn yr eiddo yn addas ac yn gyfleus ar gyfer y defnydd arfaethedig. Atodir fanylion llawn yn Atodiad A i'r adroddiad hwn, ynghyd ag adroddiad gan Wasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yn manylu materion o bryder ac argymhellion y byddai'n mynd i'r afael â diffygion mewn ymateb i'r cais. Mae manylion o'r sylwadau wedi cael eu hanfon

ymlaen i'r ymgeisydd.

4.8.2 Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno sylwadau ar y Cais. Fodd bynnag, ar ôl trafodaethau gyda'r ymgeisydd, mae nifer o amodau wedi'u cynllunio i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ymhellach wedi cael eu llunio. Mae'r ymgeisydd wedi nodi ei pharodrwydd i gytuno ar yr amodau hyn, ac ar y sail hon, bydd Heddlu Gogledd Cymru yn gofyn, pe bai Aelodau o blaid caniatáu'r cais, eu bod yn ystyried ymgorffori'r amodau hyn o fewn Atodlen Weithredu'r eiddo. Gall yr Aelodau edrych ar yr amodau yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

## 5.0 Amcanion Trwyddedu / Canllawiau / Ystyriaethau Polisi

5.1 Mae'r sylwadau perthnasol yn ymglymu'r amcanion trwyddedu.

5.2 Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais hwn, at y canllawiau a roddwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:

- Atal Trosedd ac Anrhefn **Adran 2.1 i 2.5**
- Diogelwch y Cyhoedd **Adran 2.6 i 2.8**
- Diogelu Plant Rhag Niwed **Adran 2.21 i 2.30**

5.3 Datganiad Polisi Trwyddedu

Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais, at Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor:

- Atal Trosedd ac Anrhefn **Adran 5**
- Diogelwch y Cyhoedd **Adran 6**
- Diogelu Plant Rhag Niwed **Adran 8**

5.4 Yn olaf, atgoffir yr aelodau hefyd bod rhaid iddynt ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais yn unol â Ddeddf Trwyddedu -

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Reolau cyfraith gyffredin o gyfiawnder naturiol
- Darpariaethau o Ddeddf Hawliau Dynol 1998

## 6.0 SYLWADAU'R SWYDDOGION

Mae Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol i gynorthwyo Aelodau yn eu trafodaethau.

6.1 Mae atodlen weithredu gyflawn yn ofynnol ar gyfer pob Trwydded Eiddo

newydd a'r rhai sy'n cael eu hamrywio a gall yr Aelodau archwilio'r atodlen a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd yn Atodiad C yr adroddiad hwn.

6.2 Mae'r ymgeisydd wedi dynodi ei pharodrwydd i weithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i gyflawni'r gofynion ac argymhellion a nodir yn Atodiad A, ac mae'n gweithio gyda pherchnogion yr eiddo i gyflawni hyn; bydd yr Aelodau yn cael eu diweddaru yn y Gwrandawiad am unrhyw gynnydd yn y maes hwn.

6.3 Gan ystyried y pryderon a godwyd gan Wasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, os yw Aelodau yn bwriadu cymeradwyo'r cais, efallai y byddant eisiau gosod amod yn nodi y dylid oedi Trwydded Eiddo nes bydd archwiliad boddhaol wedi ei gyflawni.

6.4 Atgoffir Aelodau, o fis Hydref 2012, pan ddaeth Deddf Cerddoriaeth Fyw i rym, mae'r gofyniad trwyddedu ar gyfer cerddoriaeth fyw rhwng 08:00 ac 23:00 wedi'i dynnu'n ôl mewn rhai sefyllfaoedd penodol. Er gwybodaeth i'r Aelodau, mae Adran 15 y Canllaw Deddf Trwyddedu yn diffinio'r eithriadau hyn.

6.5 Yn olaf, atgoffir Aelodau, er bod y sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Gogledd Cymru wedi cael cytundeb yr ymgeisydd, dim ond Aelodau o Is-bwyllgor sy'n gallu atodi unrhyw newidiadau i'r cais gwreiddiol, megis amodau ychwanegol, wrth Drwydded Eiddo.

7.0 **Crynodeb**

7.1 Fe ddylai Aelodau ystyried y Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn ofalus, yn arbennig o ran y meysydd a amlygir yn yr adroddiad hwn. Atgoffir Aelodau mai ar sail tystiolaeth/rheswm da yn unig y dylid gwyro oddi wrth y Polisi.

7.2 Bydd yn rhaid i Aelodau benderfynu p'un ai yw cymeradwyo'r cais hwn fel y gwnaethpwyd cais amdano, yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu statudol, yn arbennig o ran atal trosedd ac anrhefn, a diogelu plant rhag niwed.

7.3 Yn sgil y sylwadau sydd wedi dod i law, bydd yr Aelodau yn dymuno ystyried y cais hwn i Amrywio Trwydded Eiddo yn ofalus.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag